



Tribiwnlys Addysg Cymru

Geirfa termau

Term	Esboniad
Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	<p>Os oes angen Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol ar berson oherwydd bod ganddo anhawster dysgu neu anabledd, mae ganddynt anghenion dysgu ychwanegol. Nid oes gwahaniaeth os daw'r anhawster dysgu neu anabledd o gyflwr meddygol ai peidio.</p> <p>Mae gan blentyn o dan oedran ysgol gorfodol anhawster dysgu neu anabledd os yw'n debygol o gael mwy o anhawster wrth ddysgu na'r rhan fwyaf o blant o'r un oedran pan fydd yn cyrraedd oedran ysgol gorfodol OS na fydd yn cael Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol cyn mynd i'r ysgol.</p>
Apêl	Cais am adolygu penderfyniad gan awdurdod uwch. Yn yr achos hwn, gwneir y penderfyniad gan awdurdod lleol, neu sefydliad addysg bellach, a bydd rhiant neu blentyn yn apelio i'r Tribiwnlys Addysg adolygu'r penderfyniad.
Apelydd	Y person sydd wedi gwneud apêl i'r tribiwnlys.
Arfer hawliau	Defnyddio'r pwerau sy'n ddyledus i chi yn ôl y gyfraith.
Awdurdod Lleol	Y sefydliad sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros addysg plant. Cyngor sir neu fwrdeistref sirol, fel Cyngor Gwynedd.
Cadeirydd	Yr aelod Tribiwnlys cyfreithiol gymwys sy'n arwain gwrandawriad mewn tribiwnlys.
Ceisydd	Person sydd wedi cyflwyno cais i'r tribiwnlys. Ymysg yr enghreifftiau mae cais i gychwyn apêl neu hawliad, am ddatganiad galluedd neu i fod yn gyfaill achos.
Clerc	Y person sy'n delio â'r agweddau gweinyddol ar achosion a gwrandawiadau mewn tribiwnlys.
Corff Cyfrifol	Y corff sy'n gyfrifol am agweddau penodol ar ysgol. Fel rheol corff llywodraethu'r ysgol, sy'n grŵp o bobl sy'n rheoli'r ysgol ar y lefel uchaf.
Cyfaill Achos	Person sy'n cael ei benodi i arfer hawliau'r plentyn os yw'r plentyn heb alluedd.
Cyfarwyddyd Ymarfer	Canllawiau sy'n cael eu cyhoeddi gan y Llywydd er mwyn rhoi cyngor ymarferol ar sut i ddeall Rheoliadau'r Tribiwnlys a dilyn y rheolau'n gywir.
Cyfnod Datganiad Achos	Y cyfnod o amser sydd gan bartïon i gyflwyno eu datganiadau achos.

Term	Esboniad
Cynllun Datblygu Unigol	Cynllun anghenion dysgu ychwanegol plentyn neu berson ifanc. Mae'n cynnwys disgrifiad o'u hanghenion dysgu ychwanegol, a'r trefniadau sydd wedi'u rhoi yn eu lle i gefnogi eu haddysg.
Cynrychiolydd	Person sydd wedi'i enwi i weithredu ar ran parti, p'un ai a yw yn gyfreithiol gymwys ai peidio.
Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol	Addysg neu hyfforddiant sy'n ychwanegol at, neu'n wahanol i, yr addysg neu'r hyfforddiant a roddir mewn ysgolion prif ffrwd neu sefydliadau addysg i blant o'r un oedran. Dyma'r addysg, hyfforddiant neu help ychwanegol y mae rhywun yn ei gael os oes ganddynt anghenion dysgu ychwanegol. Ar gyfer plant dan 3 oed, mae'n unrhyw fath o addysg neu hyfforddiant.
Datganiad Achos	Gwybodaeth a thystiolaeth a gyflwynir gan y partion i'r Tribiwnlys i gefnogi eu hachos.
Deddf	Dogfen sy'n cyflwyno cyfreithiau newydd a gymeradwywyd gan senedd.
Gwrandawriad	Cyfarfod gerbron Llywydd, Cadeirydd neu banel y tribiwnlys at ddibenion caniatáu iddynt ddod i benderfyniad ynghylch apêl neu hawliad neu ynghylch unrhyw gwestiwn neu fater y mae gan y partion hawl i fod yn bresennol ynddynt a chael eu clywed.
Gwŷs tystio	Dogfen a gaiff ei chyhoeddi gan y Llywydd neu gan banel y tribiwnlys sy'n ei gwneud yn ofynnol i dyst fod yn bresennol mewn gwrandawriad o apêl neu hawliad er mwyn rhoi tystiolaeth neu ddangos dogfennau sy'n gysylltiedig ag apêl neu hawliad i'r Tribiwnlys.
Hawliad	Honiad am achos o wahaniaethu ar sail anabledd mewn lleoliad addysgol, fel ysgol.
Hawlydd	Y person sydd wedi gwneud honiad am achos o wahaniaethu ar sail anabledd i'r Tribiwnlys.
Panel y Tribiwnlys	Panel o'r Tribiwnlys sy'n ystyried tystiolaeth yr achos, ac yn gwneud penderfyniadau ar apêl neu hawliad. Gallant hefyd ymdrin ag unrhyw gwestiwn neu fater sy'n ymwneud ag apêl neu hawliad. Gall y panel gynnwys Cadeiryddion, sy'n aelodau Tribiwnlys sydd wedi cael hyfforddiant cyfreithiol, a hyd at ddau aelod lleyg, sy'n aelodau Tribiwnlys ag arbenigedd mewn addysg.

Term	Esboniad
Parti	Y ddwy ochr sy'n rhan o'r apêl neu achos. Yr apelydd neu'r hawlydd, a'r ymatebydd.
Person ifanc	Person dros oedran ysgol gorfodol sy'n derbyn addysg, ac a all gyflwyno apêl neu hawliad i'r Tribiwnlys.
Plentyn	Person sy'n destun yr apêl neu'r hawliad. Caiff unrhyw un sydd dros oedran ysgol gorfodol ei ddiffinio fel person ifanc.
Rhiant	Person sy'n cael ei ddiffinio fel rhiant plentyn o dan y Ddeddf Addysg. Mae'r diffiniad yn cynnwys unrhyw berson nad yw'n rhiant ond sydd â chyfrifoldeb rhiant neu ofal dros y plentyn yn ôl y gyfraith.
Sefydliad Addysg Bellach	Sefydliad sy'n darparu addysg i bobl dros oedran ysgol gorfodol. Mae'r addysg ar lefel ysgol uwchradd ac uwch, ond yn is na lefel Addysg Uwch (mewn prifysgolion). Mae'r cymwysterau'n cynnwys TGAU, Safon Uwch ac UG, BTEC, TAR, diploma, ardystiadau, cyrsiau galwedigaethol, ac eraill. Mae colegau'n Sefydliadau Addysg Bellach.
Sylwadau llafar	Y dystiolaeth sy'n cael ei rhoi ar lafar mewn gwrandawriad.
Sylwedydd	Person sy'n gallu bod yn bresennol mewn gwrandawriad gyda pharti, ond sydd ddim yn gallu cymryd rhan yn y trafodaethau na gwneud nodiadau.
Y Tribiwnlys	Tribiwnlys Addysg Cymru.
Tyst	Person sydd wedi'i ddewis i fod yn bresennol mewn gwrandawriad tribiwnlys i roi tystiolaeth i banel y tribiwnlys. Gall tystion ond gael eu gwahodd gan y partïon neu'r Tribiwnlys.
Yr Uwch Dribiwnlys	Y sefydliad rydych chi'n gallu gwneud apêl iddo os ydych chi'n meddwl fod penderfyniad y tribiwnlys yn anghywir o safbwynt y gyfraith. Gallant adolygu penderfyniadau'r achosion apêl, yn yr un ffordd ag y mae'r Tribiwnlys Addysg yn adolygu penderfyniadau awdurdodau lleol.
Ysgol a gynhelir	Ysgol gymunedol, ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol, ysgol arbennig sefydledig neu gymunedol, neu ysgol feithrin a gynhelir gan awdurdod lleol.
Ysgrifennydd y Tribiwnlys	Pennaeth staff gweinyddol, neu glerc, y Tribiwnlys. Y rheolwr busnes.

Term	Esboniad
Yr Ysgrifenyddiaeth	Y staff gweinyddol sy'n delio â gohebiaeth a'r gwaith gweinyddol sydd ynghlwm ag apeliadau a hawliadau. Fe'u gelwir hefyd yn glercod.